

CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

PWYLLGOR:	Pwyllgor Safonau
DYDDIAD:	15 Rhagfyr 2021
TEITL YR ADRODDIAD:	Adran 62-63 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Hysbysu'r Pwyllgor am newidiadau i'r fframwaith moesegol statudol a gyflwynwyd gan Ran 4 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
ADRODDIAD GAN:	Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro lbxcs@ynysmon.gov.uk 01248 752586
SWYDDOG CYSWLLT:	Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro lbxcs@ynysmon.gov.uk 01248 752586

1. CEFNDIR

- 1.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") yn cyflwyno darpariaethau newydd fel rhan o ddiwygio'r fframwaith deddfwriaethol ac mae'n sefydlu dyletswyddau a gofynion llywodraethu newydd.
- 1.2 Daw gwahanol ddarpariaethau'r Ddeddf i rym ar wahanol adegau yn ystod 2021/22 a 2022/23.
- 1.3 Mae Rhan 4 y Ddeddf yn gosod dyletswydd newydd ar Arweinwyr grwpiau gwleidyddol a disgwylir iddynt ddod i rym o 5 Mai 2022.

2. MATERION

- 2.1 Mae Rhan 4 adran 67 y ddeddf newydd yn ei gwneud yn ofynnol i Arweinyddion grwpiau gwleidyddol gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel aelodau eu grŵp; ac i gydweithredu â'r Pwyllgor Safonau.
- 2.2 Mae Rhan 4 adran 63 y Ddeddf Newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Safonau gynhyrchu adroddiad blynyddol, cyn gynted ac y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol pob blwyddyn. Bydd yr adroddiad hwnnw yn

disgrifio sut y cyflawnwyd swyddogaethau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ariannol. Bydd yr adroddiad yn cynnwys:

- 2.2.1 beth a wnaethpwyd i gyflawni'r swyddogaethau a roddwyd i'r Pwyllgor Safonau;
- 2.2.2 asesiad y Pwyllgor Safonau o i ba raddau mae Arweinyddion grwpiau gwleidyddol wedi cydymffurfio â'u dyletswydd eu hunain o dan Ran 4, a
- 2.2.3 cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant ar gyfer Arweinyddion grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â'r dyletswyddau hynny.

3. SEFYLLFA GYFREDOL

- 3.1 Mae trefniant ar waith i adrodd ar ymddygiad Aelodau ond nid ar y disgwyliadau newydd ar gyfer Arweinyddion Grwpiau.
- 3.2 Mae'r Pwyllgor Safonau'n cyflwyno adroddiadau i'r Cyngor ar gyfer ei Gyfarfod Blynyddol. Cyflwynwyd yr adroddiad diwethaf ym mis Mai 2021.

4. ARGYMHELLION/ARGYMHELLIAD

Er mwyn cryfhau'r ddyletswydd newydd ar Arweinyddion Grwpiau, argymhellir bod y Pwyllgor yn ystyried adolygu ei Gylch Gorchwyl a'i fframwaith monitro. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud ar ôl i'r Pwyllgor Safonau weld Canllawiau terfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer Arweinyddion Grwpiau ynghylch arfer eu dyletswyddau newydd. Canllawiau drafft sydd ar gael ar hyn o bryd ac ni chyhoeddwyd dyddiad ar gyfer ymgynghori arno.